# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych



**Rhifyn tri - Hydref 2018**

# Mae eich barn yn bwysig i ni

## Arolwg STAR 2018, helpwch ni gael pethau yn iawn!

Mae Tai Sir Ddinbych wedi gweld newid mawr dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae arnom eisiau codi ein safonau i'r lefel uchaf bosib' ac mae angen i ni weithio gyda chi er mwyn cyflawni hynny.

Yn Arolwg Tenantiaid a Thrigolion (STAR) yn 2016, gofynwyd 7 cwestiwn craidd yn benodol am eiddo a oedd yn ymwneud ag ansawdd eich cartref, gwerth am arian gyda rhenti a thaliadau gwasanaeth, eich cymdogaeth fel lle i fyw, sut yr ydym yn gwrando arnoch chi ac yn gweithredu ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud a'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn i chi. Mae manylion y canlyniadau i'w gweld ar dudalen 16-17.

Rydym wedi defnyddio'r canlyniadau hyn i wneud newidiadau a datblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae eich adborth parhaus yn hanfodol i'n helpu i lunio ein gwasanaethau, i gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd yr ydym yn eu hwynebu yn y dyfodol. Gallwch lenwi ein Arolwg Boddhad Tenantiaid a Thrigolion 2018 naill ai;

- Ar-lein trwy ddilyn y ddolen i'r wefan www.surveymonkey.co.uk/r/star2018w neu
- Gan ddefnyddio'r arolwg sydd wedi'i amgáu a'i ddychwelyd yn yr amlen barod.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen 16.**



### Anwedd

Rŵan bod y tywydd yn oeri, byddwn yn gweld cynnydd yn yr amgylchiadau sy'n achosi anwedd mewn cartrefi. Does dim ateb hud ar gyfer anwedd, ond mae'n bwysig ei fod yn cael ei reoli yn y cartref.

**Tudalen 4**

### Canolfan Gyswllt

Croeso i'r Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tai - rydym wedi symleiddio ein Canolfan Gyswllt Tai Sir Ddinbych yn ddiweddar i wella eich profiad fel cwsmer. Gallwch chi gysylltu â ni rŵan ar 01824 706000 Dydd Llun – Dydd Gwener 8:30am – 5pm

**Tudalen 7**

### Digwyddiadau'r haf

Mae cannoedd o denantiaid tai wedi cymryd rhan mewn cyfres o sioeau teithiol ar draws Sir Ddinbych.

Cynhaliodd adran tai Sir Ddinbych sawl digwyddiad dros yr haf i ymgysylltu â thenantiaid, darparu gweithgareddau am ddim i'r plant a chodi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.

**Tudalen 10**

Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk
www.denbighshirehousing.co.uk

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Yn y rhifyn hwn


## Tai Sir Ddinbych:

Croeso gan Jamie Groves **Td.3**
Canolfan Gyswllt **Td.7**
Gwobrau Tai 2019 **Td.13**
Arolwg STAR 2018 **Td.15**
Canlyniadau Arolwg STAR 2016 **Td.16-17**

## Cymuned a Phobl:

Neges oddi wrth Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych **Td.3**
Tamp ac anwedd **Td.4**
Sut i gymryd rhan **Td.7**
Digwyddiadau'r haf **Td.10**
Natur er budd Iechyd **Td.11**
Gwobrau Cefnogwyr Tai **Td.13**
Beth sy'n digwydd yn eich canolfan gymunedol **Td.15**
Rheoli eich arian **Td.18**

## Buddsoddiad a Gwelliannau:

Gwelliannau Cartref **Td.5**
Addasiadau **Td.5**
Diweddariad Bro Havard, Llanelwy **Td.6**
Cynlluniau Adeiladau Newydd **Td.12**

## Mannau Gwyrdd

Ceidwaid y Mannau Gwyrdd **Td.8**
Garddio'r Gaeaf Hwn **Td.8**
Diweddariad ar Fannau Gwyrdd **Td.9**


## Bwrdd Newyddion



**Teleofal**
0300 123 3068

**Gwasanaethau Cwsmeriaid**
01824 706000

**Rhif Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa**
0300 123 3068

**Llinell Llifogydd**
0345 988 1188

**Rhif Argyfwng Nwy**
0800 111 999

**Rhif Argyfwng Trydan**
0800 404 090

**Galw Iechyd Cymru**
0845 46 47





# Cyflwyniad gan Jamie

Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai

Croeso i rifyn yr Hydref o'ch newyddlen, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am Dai Sir Ddinbych a'ch cymunedau.

Yn y newyddlen, efallai y byddwch yn sylwi ein bod yn cyfeirio'n aml at 'fuddsoddi yn ein cymunedau'. Incwm o rent sy'n ariannu'r gwaith yr ydym yn ei wneud ac mae'n hanfodol eich bod yn dweud wrthym beth yr ydych yn ei feddwl, er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu ein cynlluniau yn seiliedig ar eich adborth a'ch blaenoriaethau chi. Yn y rhifyn hwn, fe ddewch o hyd i'n harolwg diweddaraf o Denantiaid a Phreswylwyr (STAR). Cynhelir yr arolwg bob dwy flynedd ac mae'n gofyn am adborth ar sut hwyl rydym yn ei gael ar hyn o bryd, a beth y dylem ni fod yn canolbwyntio arno wrth edrych i'r dyfodol. Treuliwch ychydig funudau yn cwblhau'r arolwg os gwelwch yn dda, bydd yn ein helpu i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n gobeithio eich bod chi wedi sylwi faint yr ydym yn ei fuddsoddi yn ein heiddo a'n cymunedau. Rydym eisiau gwella eich cartrefi a'r cymdogaethau yr ydych yn byw ynddynt drwy drefnu rhaglenni gwella ar gyfer tai presennol a diweddaru eich amgylchedd. Gellir darllen am ein prosiectau diweddaraf yn ein newyddlen. Yn ogystal â hynny, mae gwybodaeth ddiddorol a defnyddiol am ein rhaglen dai newydd a'n datblygiadau â Chredyd Cynhwysol.

Roeddwn yn falch iawn o glywed y newyddion bod Gina Jones, preswylydd o'r Rhyl, wedi'i chynnwys ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Sefydliad Siartredig Tai Cymru, sy'n cydnabod ei gwaith dros ei chymuned. Am gyrhaeddiad arbennig a llwyr haeddiannol.

O'r diwedd, rwyf yn falch i gyhoeddi ein bod yn cydweithio â Chyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych er mwyn helpu i gefnogi ein tenantiaid drwy weithredu Credyd Cynhwysol. Gyda'r gaeaf ar ei ffordd, byddwn hefyd yn gallu cynnig cymorth a chyngor ar sut i reoli eich biliau tanwydd dros y gaeaf, sy'n bryder mawr i nifer ohonom. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am sut i gysylltu â ni yn ogystal ag ychydig o gyngor ar reoli anwedd yn eich cartref dros fisoedd y gaeaf.

Fel bob amser, mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon.

# Cyflwyniad gan Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

Yn dilyn y cyflwyniad cychwynnol i DTARF (Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych) yn y cylchlythyr diwethaf, rydym yn falch o ddweud bod Maes Esgob yn Nyserth wedi mynychu cyfarfodydd diweddar ac yn y broses o ymuno â'r grŵp. Fodd bynnag, efallai bod yna denantiaid eraill o'r cyngor yn Sir Ddinbych nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad, ond yr hoffent ymuno â Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych (DTARF) ac mae mwy na chroeso iddynt. Gall unrhyw un ddod i gyfarfod fel llais cymunedol. Cynhelir y cyfarfodydd ar y trydydd dydd Iau o bob mis mewn gwahanol leoliadau yn y sir. Am ragor o wybodaeth ffoniwch John Woodward ar 01745 799083 neu e-bostiwch johnwoodward@hotmail.co.uk.

Mae Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych yn monitro gwasanaethau megis cynnal a chadw tiroedd a thrwsio tai, sydd wedi gwella'n sylweddol ers i'r tîm tai newydd fod yn weithredol. Mae Tai Sir Ddinbych yn diweddaru'r Grwp ynghylch datblygiadau mewn tai megis adeiladau newydd ac atgyweiriadau. Pe bai mwy o denantiaid yn ymuno â Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych, gallem ddod hyd yn oed yn fwy gweithredol.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 17 Ionawr, 2019, 10:30am yng Nghysgodfa, Dinbych.

Edrychwn ymlaen at weld mwy o wynebau newydd yn y cyfarfodydd felly dewch draw i ymuno â ni yn fuan.

# Tamp ac Anwedd

**Rŵan bod y tywydd yn oeri, byddwn yn gweld cynnydd yn yr amgylchiadau sy'n achosi anwedd mewn cartrefi.**

Achosir anwedd gan leithder yn yr aer sy'n setlo ar wyneb oer. Gall dyfu yn llwydni du ar waliau a nenfydau, yn ogystal ag ar ddodrefn ac eiddo.

Gall llwydni du fod yn niweidiol i'ch iechyd a gall achosi problemau resbiradol a chyflyrau iechyd eraill. Mae'n bwysig sychu unrhyw anwedd oddi ar ffenestri a waliau cyn gynted ag y mae'n ymddangos. Os bydd llwydni du yn ymddangos, dylid glanhau hwn cyn gynted ag y bo modd gyda channydd gwanedig.

Un o achosion mwyaf cyffredin lleithder cynyddol yw sychu dillad ar y rheiddiaduron. Gall hyn gynyddu'n sylweddol fodolaeth sborau llwydni yn yr awyr, y gellir eu cysylltu â llawer o broblemau iechyd anadlol a phroblemau iechyd eraill.

Gellir osgoi anwedd trwy sicrhau bod tymheredd cyson yn eich cartref a digon o awyru.




## Rydym yma i helpu

Os ydych chi'n teimlo bod gennych broblem gyda lleithder neu anwedd, rhowch wybod i ni ar 01824 706000 neu anfonwch e-bost at tai@sirddinbych.gov.uk, fel y gallwn ymchwilio i'r sefyllfa. Weithiau, nid mater trwsio a chynnal a chadw ydyw, felly mae'n bwysig dilyn y cyngor a amlinellir yma.

Yr ydym i gyd yn poeni am filiau gwresogi, yn enwedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Yn ein rhifyn diwethaf, rhoddodd Ysgrifennydd Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych, Marion Bryon, rai awgrymiadau arbed arian ar sut i newid darparwyr. Os hoffech gael rhagor o gyngor ar sicrhau eich bod yn cael y fargen orau ar gyfer eich biliau ynni neu'r ffordd orau o reoli'ch system wresogi, cysylltwch â ni. Rydym wedi cydweithio â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i roi cyngor annibynnol ar y defnydd gorau o wresogi, biliau ynni a thariffau.



# Gwelliannau Cartref Tenantiaid

**Gwneud gwelliannau ac addasiadau i'ch cartref cyngor.**

Rydyn ni am i chi deimlo'n gyfforddus yn eich cartref ac rydym yn deall y byddech chi'n hoffi gwneud rhai newidiadau weithiau.  Gallwn ni helpu a chynghori ar brosiectau a bydd angen ein caniatâd arnoch cyn bwrw 'mlaen ag ambell ddarn o waith.

## Pa waith sy'n cyfrif fel gwelliannau neu addasiadau?

Mae'n rhaid i chi gael caniatâd cyn codi, dileu neu osod:

- Waliau, toeau, ffenestri, drysau a lloriau (ac eithrio carpedi).
- Socedi / ffitiadau trydanol.
- Gwres canolog gan gynnwys rheiddiaduron a phibellau.
- Tanau nwy a chyfarpar trydanol.



Cynnal a chadw
Maintenance

- Unedau cegin a ffitiadau ystafell ymolchi yn cynnwys cawodydd.
- Garejys, siediau a chytiau.
- Ffensys, gatiau a llwybrau.
- Lleiniau caled / cyrbau wedi'u gollwng.
- Porthau, ffenestri, drysau, atodiadau ar oledd ac ystafelloedd haul.
- Mesuryddion Dŵr.
- Pyllau pysgod a thapiau allanol.
- Waliau cynnal yr ardd.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu neu ganiatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau neu newidiadau. Os yw hyn yn wir, byddwn yn anfon eich ymholiad ymlaen i'r adran gywir. Os hoffech gyngor neu eglurhad ar welliannau neu newidiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod eich cynnig yn gyntaf.

Os gwneir gwaith heb ganiatâd, efallai y byddwn yn cymryd nifer o gamau i gael eich cartref yn ôl i'r ffordd yr oedd. Gallwn wrthod caniatâd os ydym o'r farn bod y gwaith yn beryglus neu os yw'n lleihau'r gwerth neu'n cyfyngu'r eiddo mewn unrhyw ffordd.

**I wneud cais, cysylltwch â ni trwy e-bostio tai@Sirddinbych.gov.uk neu ysgrifennwch atom yng Ngwasanaethau Tai Sir Ddinbych, Caledfryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3RJ**

# Addasiadau

Bob blwyddyn, mae Tai Sir Ddinbych yn cwblhau nifer o addasiadau i'r stoc dai er mwyn sicrhau bod ein preswylwyr yn gallu parhau i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi.  Gallai addasiadau mawr gynnwys symud ystafell ymolchi presennol a gosod ystafell gawod llawr gwlyb neu osod lifft grisiau i wneud y llety llawr cyntaf yn fwy hygyrch. Gallai mân addasiadau gynnwys gosod rheiliau gafael mewnol, rheiliau llaw, rampiau allanol a saff goriadau.

**Os ydych chi'n teimlo y byddech chi'n elwa o addasiad i'ch cartref, cysylltwch â'r Pwynt Mynediad Sengl ar 0300 456 1000 neu e-bostiwch nhw ar spoa@sirddinbych.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.**





# Blwyddyn Ymlaen

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Bro Havard, Llanelwy – diweddariad ar y prosiect gwella amgylcheddol

Rydym yn falch o ddweud wrthych fod ein prosiect gwella amgylcheddol gwerth £1.2 miliwn bron wedi ei orffen. Mae'r prosiect hwn yn rhan o'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau a chefnogi lle cadarnhaol i fyw wrth wella cymdogaethau, isadeiledd a'r gymuned ehangach. Mae'r ailadeiladu'r priffyrdd a'r llwybrau troed bron wedi'i gwblhau, gan ddarparu ardaloedd â gwell cyfleusterau parcio a mesurau tawelu traffig.

Mae cam nesaf y prosiect, sydd i'w gwblhau yng Ngwanwyn 2019, yn cynnwys tirlunio, plannu coed a llwyni a fydd yn cefnogi blaenoriaeth gorfforaethol amgylcheddol y Cyngor. Bydd y tirlunio amgylcheddol yn darparu bioamrywiaeth, yn creu amgylchedd mwy deniadol a gwarchodedig ac yn atgyfnerthu lles y gymuned.

Tai Sir Ddinbych sydd yn buddsoddi yn y prosiect, gyda chymorth ehangach gan y Cyngor Sir, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae nifer o'n rhaglenni buddsoddi yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweirio Mawr Llywodraeth Cymru (MRA) o £2.5m y flwyddyn.

Lluniau o cyn ac yn ystod y gwaith priffyrdd:





Cynlluniau ar gyfer y cam nesaf o dirlunio amgylcheddol:





# Canolfan Gyswllt

**Croeso i'r Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tai - rydym wedi symleiddio ein Canolfan Gyswllt Tai Sir Ddinbych yn ddiweddar i wella eich profiad fel cwsmer.**

Gallwch chi gysylltu â ni rŵan ar 01824 706000 Dydd Llun – Dydd Gwener 8:30am – 5pm, dewis opsiwn 3 ac yna:

**Gwasgwch 1 ar gyfer rhenti**

**Gwasgwch 2 i roi gwybod am waith atgyweirio tai**

**Gwasgwch 3 am broblemau nwy**

**Gwasgwch 4 os ydych chi'n dymuno gwneud ymholiad am dŷ**

**Gwasgwch 5 ar gyfer yr holl faterion tai eraill**



Mae gennym dîm ymroddedig o Gynghorwyr Gwasanaeth Cwsmeriaid yn barod i gymryd eich galwadau. Byddwn yn ateb unrhyw ymholiadau lle bynnag y bo modd, neu yn sicrhau bod eich ymholiad yn cael ei drosglwyddo i'r person cywir a all helpu. Ein dyddiau prysuraf yw prynhawn dydd Llun a dydd Gwener, felly ar yr amseroedd hynny efallai y byddwch chi'n gweld oedi wrth aros i gael ateb.

Gallwch hefyd e-bostio ymholiadau drwy:
**https:// www.sirddinbych.gov.uk/cy/resident/contact-us/general-enquiries.aspx**

# Sut I Gymryd Rhan ?



**Rydym am i'n holl denantiaid:**

- gael llais ar sut mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu,
- gweithio mewn partneriaeth â ni i barhau i wella cartrefi a'u cymunedau,
- gallu rhoi adborth i ni i wella ein gwasanaethau, ac

**I'n helpu i gyflawni hyn, rydym yn awyddus i glywed gennych. Os hoffech wirfoddoli a chymryd rhan. Mae gennym nifer o gyfleoedd a gweithgorau yr ydym yn edrych arnynt yn y dyfodol, gan gynnwys:**

- Golygu newyddlen
- Adborth Tenantiaid
- Cynhwysiant Digidol
- Cynhwysiant Ariannol
- Datblygu cymunedol

**Os ydych chi'n teimlo bod gennych unrhyw sgiliau a fyddai o fudd i'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau a'u gwella, neu os ydych am ddatblygu sgiliau newydd, yna cysylltwch â ni ar 01824 706000 neu tai@sirddinbych.gov.uk**

# Garddio'r gaeaf Hwn

**Dyma'r cyngor defnyddiol gan y tim Mannau Gwyrdd.**

Dyma'r prif awgrymiadau gan y tîm Mannau Gwyrdd ar sut i baratoi eich gardd ar gyfer y gaeaf. Os hoffech ragor o wybodaeth, edrychwch ar yr adran gyngor ar wefan RHS **www.rhs.org.uk**

## Rhagfyr

1. Codi cynwysyddion oddi ar y ddaear er mwyn eu hatal rhag cael gormod o ddŵr.
2. Gorffen plannu basgedi crog a ffiniau â phlanhigion i'w plannu allan yn y gaeaf.
3. Gwiriwch fod eich gwresogyddion tŷ gwydr yn gweithio ac inswleiddiwch y tapiau awyr agored.
4. Tociwch goed afalau a gellyg, a choed bedwen. Efallai y byddwch am gymryd rhai toriadau pren caled hefyd.
5. Mae amser o hyd i blannu unrhyw goed a llwyni collddail.



## Ionawr

1. Ailgylchwch eich coeden Nadolig.
2. Glanhewch botiau a thai gwydr yn barod ar gyfer y gwanwyn.
3. Rhowch fwyd a dŵr allan ar gyfer adar llwglyd.
4. Dechreuwch gynllunio'ch cnydau llysiau ar gyfer y tymor i ddod.
5. Gwisgwch yn gynnes gyda phaned.

## Chwefror

1. Tociwch lwyni blodeuol y gaeaf sydd wedi gorffen blodeuo.
2. Torrwch wrychoedd bytholwyrdd ac ailwampiwch wrychoedd collddail sydd wedi gordyfu.
3. Paratowch welyau hadau llysiau, gallwch chi ddechrau heu rhai llysiau o dan orchudd hefyd.
4. Plannwch fylbiau "yn y gwyrddni" fel clychau'r gog a rhannwch yr eirlysiau.
5. Torrwch laswellt collddail yn ôl.

# Ceidwaid Gwyrdd

A allwch chi sbârio ychydig oriau y mis?

Oes gennych chi ddiddordeb yn eich amgylchedd a sut mae'n edrych yn y gymuned?

Beth am fod yn un o'n Ceidwaid Gwyrdd ?

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â:

Sarah Jones
Cydlynydd Datblygu Cymunedol

## 01824 706000

Mannau gwyrdd
Greenspace





# Diweddariad Mannau Gwyrdd

## Gardd Fwyd Gymunedol Geufron

Gan weithio ar y cyd â Gwasanaethau Cefn Gwlad, rydyn ni wrthi'n gweddnewid yr ardal hon o dir gwastraff yn y Rhyl i fod yn lle tyfu cymunedol. Mae'r ardal bellach yn cynnwys detholiad o welyau fflat a chodedig mewn ystod o feintiau, sydd ar gael i'w rhentu fel rhan o Gynllun Rhandiroedd Sir Ddinbych.  Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Garry Davies ar 01824 706000.

Cadwch lygad am ein digwyddiad agoriadol ar y cyfryngau cymdeithasol.





## Aberchwiler

Mae nifer o'n rhaglenni buddsoddi yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweirio Mawr Llywodraeth Cymru (MRA) o £2.5m y flwyddyn.

Mae tenantiaid ym Mhorth y Wern wedi gweld uwchraddiad i'w gofod tu allan eleni, gyda phlannu coed a llwyni cymdogaeth i wella ac annog amgylchedd croesawgar i drigolion. Roedd y rhaglen waith yn cynnwys gwella'r ddarpariaeth barcio a gwell mynediad i eiddo, gan ddefnyddio arwyneb resin hydraidd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government













# Datblygiad Cymunedol yr Haf/ Hydref Hwn




**Rhaglen digwyddiadau'r haf:**

Mae cannoedd o denantiaid tai wedi cymryd rhan mewn cyfres o sioeau teithiol ar draws Sir Ddinbych.

Cynhaliodd adran tai Sir Ddinbych sawl digwyddiad dros yr haf i ymgysylltu â thenantiaid, darparu gweithgareddau am ddim i'r plant a chodi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.

Cymerodd dros 500 o denantiaid ran yn ein sioeau teithiol yn Ninbych, Y Rhyl, Prestatyn, Gallt Melyd, Dyserth, Rhuallt a Llangollen.

Dywedodd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd: "Roedd y sioeau teithiol tai dros yr haf yn gyfle gwych i ni ymgysylltu â thenantiaid a darparu gweithgareddau llawn hwyl i blant. Roedd nifer dda'n bresennol a chafwyd adborth gwych a hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran.













"Rhoddodd y digwyddiadau hyn gyfle i ni siarad â thrigolion i gael dealltwriaeth o'r gymuned a rhannu gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael iddyn nhw.

"Mae darparu tai sy'n diwallu anghenion trigolion Sir Ddinbych yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

"Bydd Tai Sir Ddinbych yn darparu 170 o dai Cyngor ychwanegol ledled y sir dros y pedair blynedd nesaf."

Rhai o'r gweithgareddau i blant oedd paentio wynebau, celf a chrefft, creu pontydd, gemau chwaraeon, rhaglennu robotaidd, pensetiau rhithwir a diogelwch ar y we, a rhai o'r sefydliadau a gymerodd ran oedd Heddlu Gogledd Cymru, Age Connect, y Fenter Iaith yn ogystal â nifer o wasanaethau'r Cyngor.















# Natur er budd Iechyd

**Mae Tai Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Cefn Gwlad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor wedi lansio prosiect 'Natur er budd Iechyd' i helpu i wella bywydau pobl trwy weithgareddau iechyd a lles.**

Bydd y prosiect peilot 18 mis hwn yn rhedeg yn The Marsh yn Y Rhyl, Porth Morfa ym Mhrestatyn, Pengwern yn Llangollen, a Chorwen. Bydd yn helpu unigolion a chymunedau i gysylltu â chefn gwlad a mabwysiadu arferion iach am oes. Mae amddiffyn yr amgylchedd ac annog pobl i ddatblygu ymddygiadau sy'n cyfrannu at iechyd a lles da yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae'r prosiectau hyn yn ein helpu i gyflawni hyn.

A hoffech chi'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl newydd, archwilio'ch cymuned neu gymryd rhan mewn sesiynau gwirfoddoli wythnosol ar gyfer cerdded neu waith amgylcheddol? Os felly, beth am ddod draw.

| **Sesiynau cerdded wythnosol:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Llangollen** | Canolfan Gymunedol Pengwern / Pengwern Community Centre | Dydd Llun / Monday | 1pm – 3pm |
| **Corwen** | Canolfan Hamdden Corwen / Corwen Leisure Centre | Dydd Llun / Monday | 10am – 12pm |
| **Prestatyn** | Porth Morfa / Morfa Gateway | Dydd Iau / Thursday | 1pm – 3pm |
| **Y Rhyl / Rhyl** | Glan Morfa, Marsh Tracks | Dydd Iau / Thursday | 10am – 1pm |

| **Sesiynau gwirfoddoli wythnosol:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Llangollen** | Canolfan Gymunedol Pengwern / Pengwern Community Centre | Dydd Mawrth / Tuesday | 10am – 1pm |
| **Corwen** | Canolfan Ni | Dydd Mercher / Wednesday | 1pm – 3pm |
| **Prestatyn** | Porth Morfa / Morfa Gateway | Dydd Iau / Thursday | 10am – 1pm |
| **Y Rhyl / Rhyl** | Glan Morfa, Marsh Tracks | Dydd Iau / Thursday | 10am – 1pm |








Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yn fuan. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar e-bost **tai@sirddinbych.gov.uk, cefngwlad@sirddinbych.gov.uk neu 01824 706000**

# Cynlluniau Adeiladau Newydd – Datblygiad Tai

**Yn y rhifyn diwethaf, fe wnaethom sôn wrthych am y cynnydd rydym yn ei wneud gyda'n rhaglen i adeiladu 170 o gartrefi newydd y cyngor ledled y sir dros y pedair blynedd nesaf.**

Yn ddiweddar, cafodd ein cynigion ar gyfer cwlfert newydd ar draws safle hen Ysgol Bodnant yn Ffordd Marine, Prestatyn ei gymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru a byddwn ni'n dechrau ar y gwaith yn fuan. Bydd hyn yn clirio'r ffordd i ni ddechrau adeiladu cartrefi newydd ar y safle.

Dros yr haf, mae ymgynghoriadau wedi bod yn digwydd ynghylch cynigion ar gyfer cartrefi newydd yn y Dell ym Mhrestatyn, ac ar y cyd â Grŵp Cynefin, ar safle hen Fflatiau Pennant yn Ninbych. Mae'r ymgynghoriadau hyn bellach wedi cau ac mae cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad ym Mhrestatyn yn cael ei brosesu ar hyn o bryd, a dylem glywed y canlyniad cyn y Nadolig.

Mae contractwr lleol newydd ddechrau gweithio ar drosi'r eiddo rydym wedi'i brynu ar Ffordd Brighton yn y Rhyl, yn dri rhandy newydd, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau'r gwanwyn nesaf.

Dywedwyd wrthym hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £650,000 i ni tuag at gost adeiladu 24 o gartrefi newydd i'r safon ynni effeithlon Passivhaus oddi ar Stryd Henllan yn Ninbych. Mae penseiri bellach wedi'u penodi i ddechrau dylunio'r cartrefi newydd a byddwn yn ymgynghori â'r gymuned leol am y cynigion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Fel y gwelwch, mae'r rhaglen yn mynd rhagddi ac fe fyddwn ni'n dod â mwy o newyddion i chi am y datblygiadau cyffrous hyn mewn rhifynnau yn y dyfodol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government





# Gwobrau Tai 2019

**Mae Tai Sir Ddinbych yn falch o gyhoeddi ein bod yn trefnu ein Gwobrau Blynyddol Tenantiaid a Chymunedau cyntaf. Gobeithiwn y bydd hwn yn ddigwyddiad mawreddog i ddathlu eich cyflawniadau a chyfranogiad chi, ein tenantiaid, y gwaith o fewn eich cymunedau a'r prosiectau sy'n digwydd ar draws Sir Ddinbych.**

Rydym yn gobeithio y bydd dros 80 o gynrychiolwyr, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol tai allweddol a thenantiaid, yn mynychu'r digwyddiad ar 17 Ebrill 2019, ym Mwyty 1891 yn y Rhyl.

Bydd ein categorïau gwobrau yn cynnwys:

- Tenant y flwyddyn
- Preswylydd Tai / Grŵp Cymunedol y flwyddyn
- Gwobr gwasanaethau i gwsmeriaid ar gyfer Tai Sir Ddinbych
- Tenant ifanc y flwyddyn
- Gardd y flwyddyn – ardal Gymunedol/ Gyffredin
- Gardd y flwyddyn – Tenant/unigolyn
- Prosiectau cymunedol y flwyddyn
- Gwobr Tai Sir Ddinbych

Cadwch lygad yn y Flwyddyn Newydd pan fyddwn yn cyhoeddi'r gwobrau'n swyddogol ac yn esbonio sut i gystadlu. Caiff enillwyr Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych eu henwebu, pan yn bosibl, ar gyfer Gwobrau Cyfranogiad TPAS Cymru 2019.

## Gwobrau Cefnogwyr Tai – Gwobrau Tai Cymru 2018

Rydym wrth ein bodd yn cael cyhoeddi bod Gina Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Preswylwyr / Cydlynydd Canolfan Phoenix wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Cefnogwyr Tai Gwobrau Tai Cymru. Mae'r wobr arbennig hon yn cydnabod naill ai unigolyn neu dîm bach y mae ei angerdd, brwdfrydedd ac ymrwymiad wedi gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl eraill yn eu cymuned.

Mae Gina a'r gwirfoddolwyr eraill yng Nghymdeithas Gymunedol Marsh Canolfan Phoenix, Y Rhyl wedi gweddnewid y ganolfan gymunedol yn gyfangwbl. Mae hyn i lawr i weledigaeth Gina, ei gwaith caled, angerdd, ymrwymiad ac awch i wella bywydau'r bobl yn ei chymuned. Gyda chefnogaeth Nikki a chymorth partneriaid allanol, mae Gina wedi troi ei gweledigaeth i mewn i realiti a rhoi'r Ganolfan yn ôl i'w chymuned. Oherwydd y gwir wahaniaeth y mae Gina wedi'i wneud i fywydau pobl yn ei chymuned, ni allwn feddwl am neb gwell sy'n haeddu'r wobr hon.






# Yn Agor Gwanwyn 2019

# Opening Spring 2019




**Mae SC2, atyniad hamdden newydd a chyffrous Cymru, yn barod i agor ei ddrysau.Gyda sleidiau ysblennydd, padlo arddull traeth ac arena TAG Actif gyntaf Cymru, mae rhywbeth i bawb.**

**SC2 Wales newest and most exciting leisured attraction is getting ready to open its doors. With breathtaking flumes, beach style paddling and Wales first TAGactive arena, there's something for everyone.**




sir ddinbych denbighshire Cyngor County Council
hamdden leisure

# www.sc2rhyl.co.uk

ymholiadau@sc2rhyl.co.uk

enquiries@sc2rhyl.co.uk



## Trem Y Foel, Rhuthun

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llun** | Te a sgwrs | 10am | |
| | Cymun Sanctaidd (misol) | 11am | |
| | Ymarferion cadair freichiau | 1:30pm | |
| | Gyrfa Chwist | 7pm | |
| **Maw** | Bowls a lluniaeth ysgafn | 2pm | |
| **Merch** | Bingo Clwb Cymdeithasol | 2pm | |
| **Iau** | Te a sgwrs | 2pm | |
| **Gwe** | Bingo | 7pm | (fortnightly) |

## Llys Y Felin, Llanelwy

| | | |
|---|---|---|
| **Bob dau Fis** | Cyfarfod Preswylwyr Llys y Felin | |
| **Llun 1af bob mis** | Cardiau a gemau cymdeithasol | |
| **Iau** | Bingo | 2pm |
| **Bob wythnos** | Pêl Fonws a Bore Coffi | 10am |




## Maes Emlyn

| | |
|---|---|
| **Llun** | Bore Coffi |
| **Maw** | Bingo 7pm |
| **Merch** | Cinio |
| **Gwe** | Bingo 7pm |
| **Sad** | Noson Barti OCC |

## Amser Cystadleuaeth!!

**Am gyfle i ennill 1 o 10 o dalebau £50, cyflwynwch eich arolwg STAR atom erbyn 14 Rhagfyr 2018.**

Bydd pob arolwg a lenwir ar-lein

**www.surveymonkey.co.uk/r/star2018w**

yn cael ei roi yn y raffl dwywaith a bydd pob arolwg sy'n cael ei ddychwelyd trwy'r post yn cael ei roi yn y raffl 1 waith. Ni fydd unrhyw arolygon a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn, hyd at 11 Ionawr 2019, yn cael eu rhoi yn y raffl, ond byddant yn cael eu cynnwys yn y canlyniadau.

Hoffem eich sicrhau y bydd eich atebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol ac mai at ddibenion ymchwil yn unig y byddwn yn eu defnyddio. Golyga hyn na fydd modd adnabod unrhyw unigolyn na chyfeiriad o ganfyddiadau'r arolwg. Fodd bynnag, bydd angen eich manylion, os ydych chi'n dymuno cael eich rhoi yn y raffl.

### Amodau a Thelerau:

*Dewisir yr enillwyr ar hap a bydd pob penderfyniad yn derfynol. Y dyddiad cau ar gyfer y wobr yw 14 Rhagfyr 2018 a chysylltir gyda'r enillydd yn fuan ar ôl y dyddiad hwn (nodwch os gwelwch yn dda, mae'n rhaid i chi ddarparu'ch manylion cyswllt yn y gofod a ddarperir wrth lenwi'r arolwg os ydych chi'n dymuno cael eich rhoi yn y raffl).*

*Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn, cysylltwch â ni ar 01824 706000 a bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi ar-lein ac yn y rhifyn nesaf o'r newyddlen tenantiaid.*



# Arolwg STAR – Arolwg o Denantiaid a Phreswylwyr

**Mae Tai Sir Ddinbych wedi gweld newidiadau mawr dros y 18 mis diwethaf. Rydym eisiau parhau i godi ein safonau i'r lefel uchaf bosibl ac mae angen i ni weithio gyda chi er mwyn cyflawni hynny.**

Yr Hydref hwn byddwn yn cynnal ein trydydd arolwg STAR. Yn 2016-17 fe wnaethom ofyn 7 cwestiwn craidd yn ymwneud yn benodol a'ch tai. Roedd y rhain yn ymwneud ag ansawdd cartrefi, gwerth am arian o ran rhenti a phrisiau gwasanaethau, eich cymdogaeth chi fel lle diogel i fyw, sut yr ydym yn gwrando arnoch ac yn gweithredu ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthym, a'r gwasanaeth hollgynhwysfawr yr ydym yn ei ddarparu.

Yn ychwanegol, gofynnom gwestiynau cyffredinol am ein henw da fel darparwr gwasanaethau tai, ein blaenoriaethau, ymddiriedaeth, staff, mynediad digidol, cyfathrebu ac iechyd a lles er mwyn rhoi gwell mewnwelediad i ni o sut y gallwn wella yn y meysydd hyn.

**Dyma grynodeb o'r hyn ddywedoch chi.**

Cafodd **3,344** o arolygon eu hanfon allan.

Derbyniwyd **592 (18%)** o arolygon wedi'u cwblhau, **561** o gopiau papur a **31** ar-lein.

Dywedodd **86%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar **ansawdd cyffredinol eu cartref**

**2il** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'r **gymdogaeth gyffredinol.**

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu **rhent** yn rhoi gwerth am arian.

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **85%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar y ffordd rydym yn delio â **gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.**

**1af** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **84%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'n **gwasanaeth cyffredinol**.

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.

Dywedodd **71%** o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar y ffordd rydyn **yn gwrando ac yn gweithredu.**

**3ydd** yng Nghymru pan y'i meincnodwyd yn erbyn **7** sefydliad.



Roedd **45%**

o'r tenantiaid a ymatebodd yn defnyddio'r **rhyngrwyd.**

Roedd **71%**

neu'n cytuno'n gryf pan ofynnwyd "Rwy'n byw **ffordd iach o fyw**".

Roedd tenantiaid **LLANGOLLEN A RHUDDLAN** yn bennaf yn rhoi sylwadau ar faterion gyda **gwaith trwsio mewnol, trwsio allanol a gwresogi.**

Yn bennaf roedd tenantiaid **DINBYCH, Y RHYL A PHRESTATYN** yn rhoi sylwadau ar broblemau gyda **sbwriel, gerddi, goleuadau a baw cŵn.**

Cyfeiriodd tenantiaid **CORWEN A LLANELWY** yn bennaf at faterion gyda **pharcio.**

Yn bennaf rhoddodd tenantiaid **RHUTHUN** sylwadau ar faterion **traffig** ac roeddent am weld mwy o ddigwyddiadau cymunedol, presenoldeb mwy **o swyddogion** a **gwell gwasanaeth bysiau.**

## 3 BLAENORIAETH EIN TENANTIAID

1. Trwsio a chynnal a chadw
2. Gwrando ar farn trigolion a gweithredu arnyn nhw
3. Ansawdd cyffredinol eich cartref

## DYWEDOCH CHI, FE WNAETHOM NI

**YN SEILIEDIG AR GANLYNIADAU AROLWG STAR 2016, RYDYM WEDI BUDDSODDI'N SYLWEDDOL YN Y MEYSYDD CANLYNOL.**

### ERBYN HYN MAE GENNYM DÎM DATBLYGU CYMUNEDOL I:

- Wella sut rydym yn gwrando ac yn gweithredu
- Cefnogi nifer o brosiectau sy'n gwella iechyd a lles ein tenantiaid
- Gwella ein hymgysylltiad mewn cymunedau, er enghraifft Pengwern a'r Rhyl

### LLANELWY

Buddsoddi mewn **gwelliannau parcio**

### CYNHWYSIANT ARIANNOL A DIGIDOL

Penodwyd swyddog Cynhwysiant Ariannol a Digidol i weld sut y gallwn wella mynediad i'r rhyngrwyd i'n tenantiaid.

## RYDYM YN DAL I WEITHIO AR:

### ATGYWEIRIO A CHYNNAL A CHADW

Gweld a allwn ni wella'r gwasanaeth

### GWEFAN

Datblygu gwefan sy'n canolbwyntio ar y tenantiaid

### CEFNOGAETH

Cefnogaeth barhaus i faterion cymdogaeth.

# Wyddoch chi...?

**Mae Tai Sir Ddinbych yma i helpu ac wedi ymrwymo i gynorthwyo â'r trawsnewid i Gredyd Cynhwysol.**

**Gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:**

- Cymorth digidol a mynd ar-lein
- Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref
- Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian
- Rheoli dyledion
- Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor
- Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim
- Rheoli ôl-ddyled a rheoli tenantiaeth




Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i darparwyr eraill am gymorth. I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tim tai ar **01824 706000.**